**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

25 Medi 2023

Annwyl Jane,

Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch am roi tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i drais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Yn dilyn ein sesiwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu manylion ychwanegol ynghylch y canlynol:

- Dangosyddion cenedlaethol: nodwyd gennych fod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r dangosyddion cenedlaethol, ac yn benodol eich bod wedi gofyn i bob un o'r ffrydiau gwaith glasbrint ystyried sut y byddent yn gwerthuso eu cynigion yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol fel y maent ar hyn o bryd. A fyddech cystal â chadarnhau'r amserlenni ar gyfer y gwaith hwn? A allech roi enghreifftiau o unrhyw ddangosyddion cenedlaethol yr ydych wedi cytuno arnynt hyd yn hyn?

- Ffrydiau gwaith: a fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion am y ffrydiau gwaith glasbrint, gan gynnwys eu cynlluniau gwaith a'r canlyniadau a fwriedir?

- Rhaglenni ar gyfer y rhai sy'n cyflawni trais a cham-drin: fel y nodwyd yn ystod y sesiwn, byddem yn croesawu gwybodaeth benodol am waith a wnaed o dan y ffrwd waith Mynd i'r Afael â Chyflawni Trais; yn benodol, y ddarpariaeth o raglenni ar gyfer y rhai sy'n cyflawni trais a cham-drin ledled Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gynnwys manylion am y llwybrau atgyfeirio a mynediad atynt, a sut maent yn cael eu hariannu a'u monitro.

- Asesiadau o effaith rhaglenni presennol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'u cynllunio i atal trais ar sail rhywedd: a fyddech cystal â rhoi manylion o ran pa asesiadau sydd wedi'u cynnal, neu y bwriedir eu cynnal, o effaith y rhaglenni hyn?

- Uned Data Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru: a fyddech cystal â chadarnhau a yw'r uned yn casglu unrhyw ddata penodol ar atal trais ar sail rhywedd ac, os felly, beth a phryd y bydd yn cael ei gyhoeddi?

- Gofyn a Gweithredu – gwerthusiad ychwanegol: a fyddech cystal â rhoi manylion ynghylch cynlluniau i gynnal gwerthusiad parhaus neu ychwanegol yn ymwneud â gweithredu'r cynllun Gofyn a Gweithredu, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ei fod yn newid ymddygiad? A allech gadarnhau i bwy y mae'r cynllun yn berthnasol ar hyn o bryd, pa gynlluniau sydd gennych i ymestyn y cynllun i gyrff eraill, a phwy yr ydych yn ystyried eu cynnwys?

- Yr adroddiad ar fenywod mudol, argymhelliad 13: derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad 13 o'n hadroddiad Trais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol, a alwodd am i fur gwarchod gael ei sefydlu i gyfyngu ar rannu data rhwng asiantaethau. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn?

- Cyllid: gwnaethoch nodi bod eich cyllid refeniw wedi cael ei ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion gwasanaethau arbenigol fel BAWSO a Chymorth i Ferched Cymru. A fyddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth am sefydliadau eraill sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd?

- Rhaglen Paid Cadw'n Dawel: a fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion am y rhaglen hon, gan gynnwys yr amserlen arfaethedig ar gyfer ei chyflwyno ac unrhyw gostau cysylltiedig?

- Dyletswydd trais difrifol: a fyddech cystal â rhannu â ni eich gohebiaeth â Gweinidog Plismona'r DU ar gynlluniau i roi'r ddyletswydd ar waith yng Nghymru?

- Adnodd Llywodraeth Cymru: gan eich bod wedi nodi bod VAWDASV yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a allech roi manylion yr adnoddau staffio a'r capasiti sydd wedi'i eu dyrannu iddi o fewn Llywodraeth Cymru?

- Mesur effaith: a allech gadarnhau sut y mae Llywodraeth Cymru yn mesur effaith ymyrryd yn gynnar i atal trais a sail rhywedd?

- Diwylliant sefydliadol: mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru fel sefydliad fyfyrio ynghylch ei diwylliant sefydliadol ei hun a bod yn atebol amdano er mwyn anfon neges gyson bod trais ar sail rhywedd yn cael ei gymryd o ddifrif. Pa mor hyderus ydych chi fod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl?

Gan ein bod wedi cyrraedd diwedd ein cyfnod casglu tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar cael ymateb erbyn 9 Hydref 2023, os oes modd.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament